DEALLTWRIAETH GYFFREDIN O ADCDF YNG NGHYMRU

Dealltwriaeth Gyffredin o Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF) yng Nghymru

Dogfen interim Gorfennaf 2007 – Ionawr 2008

Cynnwys

Cyflwyniad		4
Beth mae Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang yn ei olygu i Ddysgwyr, Athrawon ac Ysgolion?		5
Fframwaith cyffredin ar draws y Cyfnodau Allweddol		
3.1	Cyfnod Sylfaen	6
3.2	Cyfnod Allweddol 2	8
3.3	Cyfnod Allweddol 3	10
3.4	Cyfnod Allweddol 4	12
3.5	Ôl-16	14

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi Dealltwriaeth Gyffredin o Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang mewn ymateb i'r angen am safonau cyffredin a nodwyd yn y ddogfen *Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang - Strategaeth Weithredu (Dogfen Wybodaeth AADGOS Rhif: 017-06)*. Mae'r Ddealltwriaeth Gyffredin yn disgrifio cwmpas a dulliau cyflwyno Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang ar draws yr ystod oedran 3 i 19 mewn ysgolion. Mae'n nodi'r canlyniadau dysgu sgiliau yn unol â'r *Fframwaith Sgiliau (AADGOS Ionawr 2007)* a chaiff ei chyflwyno ar ffurf debyg iawn i'r *Fframwaith ABCh (AADGOS Ionawr 2007)*.

Er mwyn dangos natur drawsbynciol Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang, ac er mwyn cynorthwyo'r gwaith o gynllunio'r cwricwlwm, mae'r Ddealltwriaeth Gyffredin hon yn cynnwys datganiadau ar werthoedd ac agweddau, a gwybodaeth a dealltwriaeth drwy fframwaith sy'n seiliedig ar y saith thema gydgysylltiedig ganlynol.

- Cyfoeth a thlodi
- Hunaniaeth a diwylliant
- Dewisiadau a phenderfyniadau
- Iechyd
- Yr amgylchedd naturiol
- Defnydd a gwastraff
- Newid yn yr hinsawdd

1.1 Dulliau cyflwyno Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF)

Wrth lunio'r cynllun gweithredu Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang, roedd galw pendant am egluro ehangder Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang a chynnig hyn mewn ffordd sy'n hawdd i athrawon ddechrau ei chyflwyno yn eu darpariaeth yn yr ystafell ddosbarth, i benaethiaid ei chynnwys yn ethos yr ysgol gyfan ac i gyfleu fframwaith ar gyfer integreiddio'r llu o wobrau a mentrau a gaiff eu cynnig gan bartneriaid sy'n helpu i gyflwyno Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang.

Bydd y dull hwn o gyflwyno 'dealltwriaeth gyffredin' yn ategu naw cysyniad Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang fel y'u diffiniwyd eisoes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Yn dilyn yr adroddiad sylfaenol gan Estyn (Mai 2006) gwelwyd bod angen datblygu ffyrdd o gyflwyno Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang a oedd yn haws i'r athrawon, a oedd yn cyd-fynd â Chwricwlwm 2008 sy'n cael ei ddatblygu ac a oedd yn cynnig enghraifft eglur o'r ehangder a gaiff ei gynnwys yn y maes Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang. Canlyniad y dysgu hwn yw'r themâu cydgysylltiedig. Maent yn cynnig amlinelliad eglur o'r amrywiaeth o themâu y mae angen eu cynnwys os yw Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang yn cael ei gynnig yn yr ysgol. Maent yn rhoi rhagflas i athrawon newydd sydd am ddechrau cynnig Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang. I'r athrawon hynny sydd eisoes yn ymwybodol o gysyniadau allweddol Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang ac sy'n eu defnyddio*, maent yn cynnig cyfle i ystyried y dull o'u cyflwyno a modd o groesgyfeirio i sicrhau y caiff ehangder y themâu eu cyflwyno drwy eu gwaith. Caiff enghreifftiau pellach o'r modd y mae cysyniadau allweddol Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang yn datblygu ar y cyd â'r ddealltwriaeth gyffredin hon eu cynnwys yn y canllawiau arfer da a fydd ar gael yn ddiweddarach yn 2007.

* I gael gwybodaeth am y cysyniadau allweddol, ewch i www.adcdf-cymru.org.uk/
Adroddiad: Canllawiau Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang ACCAC, 2002

1.2 Darparu Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang

Nid yw ansawdd y gwaith o ddarparu Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang yn gyfyngedig i'r ystafell ddosbarth, nac i un athro. Caiff ei integreiddio drwy'r ysgol gyfan, i gynnwys yr holl athrawon, staff ategol, llywodraethwyr a'r partneriaethau allanol a gaiff eu ffurfio rhwng yr ysgol a sefydliadau a'r gymuned leol. Ceir llawer o fodelau ar gyfer cyflawni hyn, a'r ymagwedd o fewn y ddogfen hon yw y dylid ystyried sut y byddai'n bosibl cyflwyno'r themâu yn yr ystafell ddosbarth, yn yr ysgol gyfan a thrwy bartneriaethau a chysylltiadau â chymunedau. Ceir enghraifft ddangosol o ddwy o'r themâu hyn yn Atodiad 1.

Nod y ffordd hon o weithio yw rhoi trefn ar waith athrawon unigol o fewn y modd mae ysgol gyfan yn gweithredu a chynnwys gwobrau a mentrau allanol, cynlluniau a chyfleoedd lleol o fewn ymagwedd gyfannol.

Mae Galluogi Cymorth Effeithiol (EES) yn fenter genedlaethol a weithredir yn lleol i gynnig cymorth i Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang.

2. Beth mae Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang yn ei olygu i athrawon, i ddysgwyr, ac i ysgolion?

I athrawon, mae Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang yn golygu:
- ffordd gyfannol o addysgu;
- paratoi dysgwyr ar gyfer yr heriau newydd a fydd yn rhan o'u dyfodol, megis newid yn yr hinsawdd a chystadleuaeth ryngwladol am adnoddau;
- datblygu dealltwriaeth dysgwyr o'r byd er mwyn adnabod natur gymhleth, cydgysylltiedig eu byd;
- ffordd o ddysgu ac addysgu y gall pob pwnc gyfrannu ati; a
- meithrin y sgiliau a fydd yn galluogi dysgwyr i feddwl yn feirniadol ac yn ochrol, cysylltu syniadau a chysyniadau, a gwneud penderfyniadau hyddysg.

I ddysgwyr, mae Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang yn golygu:
- cael eu hannog i ofalu amdanynt eu hunain, gofalu am eraill a gofalu am yr amgylchedd;
- trafod y materion y mae ganddynt yr hawl i fod yn ymwybodol ohonynt ar gyfer eu dyfodol;
- gwerthfawrogi eu rôl yng nghymuned yr ysgol, y gymuned leol a'r gymuned fyd-eang;
- darganfod, waeth beth maent yn ei astudio, fod cysylltiadau â phynciau, themâu a materion eraill, ac â "darlun mawr" y byd ehangach; a
- meithrin sgiliau ac ystyried materion mewn ffyrdd a fydd yn eu galluogi i benderfynu drostynt eu hunain a phenderfynu sut i ymateb.

I ysgolion, mae Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang yn golygu:
- rhan o ethos, addysgeg a threfniadaeth yr ysgol;
- negeseuon hanfodol o ran y ffordd y caiff yr ysgol ei threfnu a'i rheoli;
- rhywbeth y dylai'r ysgol ei "wneud" yn ogystal â'i addysgu;
- rhywbeth y mae angen ei gydlynu drwy'r ysgol gyfan; a
- rhywbeth y bydd Estyn yn ei arolygu.

Nid yw Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang yn:
- bwnc ar wahân;
- cyfres o gysyniadau neu destunau ar wahân;
- rhywbeth sy'n gyfyngedig i'r ystafell ddosbarth;
- cyfrifoldeb i ddim ond un o athrawon yr ysgol;
- golygu trosglwyddo cyfres o atebion i ddysgwyr.

Sgiliau

Cyfathrebu

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- wrando ac ymateb i eraill
- cyfathrebu yn fwyfwy hyderus â chyfoedion ac eraill
- ymateb i syniadau ac emosiynau drwy weithgareddau chwarae strwythuredig a datblygu creadigrwydd

Meddwl

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- ofyn pam, beth, sut, ble a phryd
- dechrau arbrofi â syniadau personol a syniadau eraill
- dechrau llunio barn a gwneud penderfyniadau drwy ystyried agweddau cadarnhaol a negyddol
- dechrau gwahaniaethu rhwng ffaith a ffuglen

Cydweithio ag eraill

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- gydweithio ar dasg
- gwrando ar brofiadau pobl eraill

Ystod

Cyfoeth a Thlodi

AGWEDDAU A GWERTHOEDD

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- drin eraill yn deg
- gwerthfawrogi gwahanol deimladau pobl eraill
- rhannu adnoddau ag eraill

GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i wybod a deall:

- bod rhai pobl yn gyfoethog ac eraill yn dlawd
- beth sy'n deg a beth sy'n annheg
- eu bod yn dibynnu ar waith pobl eraill am fwyd a dŵr, cysgod a dillad

Hunaniaeth a diwylliant

AGWEDDAU A GWERTHOEDD

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- ddeall bod gwahaniaethu ac allgáu yn anghywir
- gwerthfawrogi ffrindiau a theulu
- parchu celfwaith crefyddol

GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i wybod a deall:

- bod pawb yn arbennig ac yn wahanol
- y tebygrwydd hanfodol rhwng pawb
- efallai bod eraill yn dathlu gwyliau gwahanol

Dewisiadau a phenderfyniadau

AGWEDDAU A GWERTHOEDD

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- fynegi eu barn a gwrando ar farn eraill
- cydweithio ar dasgau i ddatrys problemau
- gweld y gall rheolau helpu pawb

GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i wybod a deall:

- bod canlyniadau i ddewisiadau a phenderfyniadau
- ffyrdd o osgoi a datrys gwrthdaro
- y gallant ystyried problemau cymdeithasol a moesegol drwy weithio mewn grŵp

Iechyd

AGWEDDAU A GWERTHOEDD

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- gydnabod yr angen am hylendid personol
- cydnabod eu cyfrifoldebau i'w diogelu eu hunain a diogelu eraill
- deall pwysigrwydd bwyta'n iach a gwneud ymarfer corff

GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i wybod a deall:

- bod angen cyfuniad o fwydydd ar bobl
- bod pob bwyd yn dod o anifeiliaid neu blanhigion

Gwella dysgu a pherfformiad personol

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- roi cynnig ar ffyrdd gwahanol o ddysgu
- nodi'r hyn a gyflawnwyd

Rhif

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- ddatblygu sgiliau adnabod rhifau a defnyddio rhifau wrth chwarae gemau a chwarae rolau
- nodi'r gwahaniaeth mewn maint a nifer

TGCh

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- ddod yn ymwybodol y gellir defnyddio TGCh i gyfleu syniadau
- dechrau dod o hyd i ffynonellau gwybodaeth gwahanol gydag arweiniad

- nad oes gan bawb yn y byd ddigon o fwyd, dŵr glan, amgylchedd diogel a chydberthynas dda â phobl

Yr amgylchedd naturiol

AGWEDDAU A GWERTHOEDD

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- feithrin ymdeimlad o syndod a rhyfeddod at harddwch tirweddau, cynefinoedd a phethau byw
- gofalu am yr amgylchedd a deall ei bwysigrwydd

GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i wybod a deall:

- y gall gweithredoedd pobl wella neu niweidio'r amgylchedd
- bod popeth byw yn dibynnu ar ei gilydd
- bod cynefinoedd gwahanol yn cynnal gwahanol anifeiliaid a phlanhigion

Defnydd a gwastraff

AGWEDDAU A GWERTHOEDD

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- ofalu am eu heiddo
- bod yn ofalus wrth ddefnyddio adnoddau
- bod yn gyfrifol wrth gael gwared ag adnoddau a ddefnyddiwyd

GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i wybod a deall:

- bod adnoddau naturiol yn brin
- y gellir ailgylchu rhai pethau ac ail-ddefnyddio pethau eraill
- bod pobl yn cynhyrchu gwastraff diangen
- bod eisiau ac angen yn ddau beth gwahanol

Newid yn yr hinsawdd

AGWEDDAU A GWERTHOEDD

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- ddeall pwysigrwydd arbed ynni
- credu y gallant wneud gwahaniaeth drwy eu gweithredoedd a'u hymddygiad

GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i wybod a deall:

- bod patrymau tywydd gwahanol mewn mannau gwahanol a bod y rhain yn effeithio ar y ffordd mae pobl yn byw
- bod angen ynni i gael goleuni, gwres a thrafnidiaeth
- bod ffynonellau amgen o gael ynni o'r haul a'r gwynt

Cyfnod Allweddol 2

Sgiliau

Cyfathrebu

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- wrando ar syniadau a chyflwyniadau gan amrywiaeth o ffynonellau
- cyfrannu at drafodaethau a dadleuon ar bynciau Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang
- cyfleu syniadau ac emosiynau drwy amrywiaeth o ddulliau i wahanol gynulleidfaoedd

Meddwl

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- gynllunio ble i ddod o hyd i wybodaeth berthnasol
- gwahaniaethu rhwng ffeithiau, credoau a safbwyntiau
- nodi, disgrifio a dechrau egluro patrymau a chydberthnasau
- defnyddio peth gwybodaeth flaenorol i gysylltu achos ac effaith a chynnig rhagolygon ar gyfer y dyfodol
- gwneud penderfyniadau hyddysg

Cydweithio ag eraill

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- gydweithio a chydweithredu i ddatrys problemau
- cydymdeimlo â phrofiadau a theimladau eraill
- gwrthod ildio i bwysau ac ymddygiad cyfoedion
- datblygu strategaethau ar gyfer datrys gwrthdaro
- cael help gan eraill
- gwneud penderfyniadau fel grŵp

Ystod

Cyfoeth a Thlodi

AGWEDDAU A GWERTHOEDD

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- ddeall bod gan bobl yr hawl i ddisgwyl bod eu hanghenion sylfaenol yn cael eu diwallu

GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i wybod a deall:

- effeithiau anghydraddoldeb ar ansawdd bywyd pobl
- y caiff gweithredoedd lleol effaith fyd-eang oherwydd y cysylltiadau rhwng gwahanol leoedd a gwahanol bobl

Hunaniaeth a diwylliant

AGWEDDAU A GWERTHOEDD

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- ddeall effaith negyddol gwahaniaethu a rhagfarn ar unigolion a grwpiau
- gwerthfawrogi'r ffaith eu bod yn ddinasyddion mewn byd sy'n llawn o gydgysylltiadau

GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i wybod a deall:

- bod pob un ohonom yn debyg ac yn wahanol
- bod gan bobl gredoau a gwerthoedd gwahanol
- bod gwerthoedd diwylliannol a chredoau crefyddol yn llywio'r ffordd y mae pobl yn byw
- bod gwybodaeth am bobl a lleoedd yn dileu stereoteip

Dewisiadau a phenderfyniadau

AGWEDDAU A GWERTHOEDD

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- gyfranogi mewn agweddau ar fywyd yn yr ysgol, helpu i wneud penderfyniadau
- mynegi a dangos hunan barch a pharch at eraill
- gwerthfawrogi'r ffaith bod gweithredoedd personol yn arwain at ganlyniadau

GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i wybod a deall:

- y gwahaniaeth rhwng cadernid a bwlio
- beth yw ystyr hawliau'r plentyn ac nad yw'r hawliau hyn gan bawb ym mhobman
- y gall y penderfyniadau a wnawn fel unigolion a gyda'n gilydd effeithio ar yr amgylchedd

Iechyd

AGWEDDAU A GWERTHOEDD

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- werthfawrogi pwysigrwydd teulu a chymuned ar gyfer iechyd
- gofalu am eu hiechyd eu hunain ac iechyd eraill

Gwella dysgu a pherfformiad personol

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- ymarfer dulliau gwahanol o ddysgu er mwyn cael gafael ar wahanol fathau o wybodaeth
- cymhwyso dysgu i sefyllfaoedd tebyg yn yr ysgol
- ystyried yr hyn a gyflawnwyd
- meithrin y sgiliau ymarferol angenrheidiol ar gyfer bywyd bob dydd
- myfyrio ar y dysgu a gyflawnwyd yn yr ysgol a'i gysylltu â sefyllfaoedd yn y byd ehangach

Rhif

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- ddethol a defnyddio data o wybodaeth benodol
- cofnodi a dehongli data a siartiau sy'n gysylltiedig ag Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang
- casglu gwybodaeth mewn gwahanol ffyrdd gan gynnwys holiaduron a chronfeydd data

TGCh

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- gasglu gwybodaeth a'i rhannu ag eraill e.e. drwy gyswllt rhyngwladol
- dod o hyd i wybodaeth addas am bynciau Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang o ffynonellau penodol a chyflwyno'r wybodaeth honno
- dechrau gofyn cwestiynau am ragfarn

GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i wybod a deall:

- gofynion sylfaenol ffordd iach o fyw
- effaith yr amgylchedd ar iechyd a lles
- y gall tlodi ac anghydraddoldeb achosi problemau iechyd

Yr amgylchedd naturiol

AGWEDDAU A GWERTHOEDD

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- ennyn parch at dirweddau, cynefinoedd a phethau byw
- meithrin ymdeimlad o syndod at fyd natur a'i barchu

GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i wybod a deall:

- anghenion popeth byw
- bod pobl yn dibynnu ar yr amgylchedd i gael ynni, bwyd a deunyddiau eraill

Defnydd a gwastraff

AGWEDDAU A GWERTHOEDD

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- gymryd camau personol a dylanwadu ar eraill i arbed ynni a lleihau defnydd

GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i wybod a deall:

- o ble y daw'r pethau a ddefnyddir ganddynt ac i ble maent yn mynd
- beth sy'n effeithio ar eu defnydd personol
- y gall gwastraff achosi llygredd

Newid yn yr hinsawdd

AGWEDDAU A GWERTHOEDD

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- ddeall y gall unigolion a grwpiau weithredu i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd

GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i wybod a deall:

- y gwahaniaeth rhwng hinsawdd a thywydd a bod newid yn yr hinsawdd yn achosi newid yn y tywydd
- gall hinsawdd newid gyda threigl amser
- bod llosgi tanwydd ffosil yn creu gollyngiadau sy'n achosi newid yn yr hinsawdd
- yr amrywiaeth o ffyrdd amgen o arbed ynni a'i gynhyrchu

Cyfnod Allweddol 3

Sgiliau

Cyfathrebu

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- wrando ar sawl barn wahanol ac ymateb yn briodol
- gwrando ar gyfoedion a chyfathrebu â hwy mewn cymunedau neu wledydd eraill
- mynegi barn a'i chyfiawnhau mewn trafodaethau a dadleuon a phleidleisio ar faterion sy'n ymwneud ag Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang

Meddwl

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- ddefnyddio gwybodaeth flaenorol i gysylltu achos ac effaith a chynnig rhagolygon ar gyfer y dyfodol
- egluro patrymau a chydberthnasau a nodi ansicrwydd
- myfyrio ar weithgareddau dysgu i ailasesu barn ar faterion sy'n ymwneud ag Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang yn lleol ac yn fyd-eang

Cydweithio ag eraill

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- weithio'n annibynnol a chydweithio i gyfrannu i ganlyniad grŵp
- negodi ar gyd-amcanion
- bod yn gadarn a gwrthod ildio i bwysau diangen gan gyfoedion
- defnyddio amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth, cymorth a chyngor
- gweithredu ar benderfyniadau grŵp

Ystod

Cyfoeth a Thlodi

AGWEDDAU A GWERTHOEDD

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- feithrin ymdeimlad o degwch a chyfiawnder o ran defnyddio adnoddau a chyfoeth
- gweld effaith niweidiol ymelwa a thlodi
- dysgu gwerthfawrogi pethau anfaterol yn ogystal â phethau materol

GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i wybod a deall:

- bod anghydraddoldeb yn bodoli rhwng pobl o fewn gwledydd a rhwng gwledydd
- sut y caiff nwyddau eu cynhyrchu a'u masnachu a beth yw Masnach Deg a pham mae'n bwysig
- pam mae pobl yn mudo

Hunaniaeth a diwylliant

AGWEDDAU A GWERTHOEDD

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- fagu dealltwriaeth o'u gwerthoedd a'u credoau eu hunain
- ennyn parch atynt eu hunain ac at eraill
- gwerthfawrogi, dathlu a dangos sensitifrwydd tuag at amrywiaeth yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang
- cwestiynu stereoteip
- deall y modd y mae gwerthoedd pobl yn dylanwadu ar eu gweithredoedd a'u safbwyntiau

GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i wybod a deall:

- o ble daw eu credoau
- sut i adnabod ffyrdd o ddangos rhagfarn, hiliaeth a stereoteipio a herio hynny'n effeithiol
- y cysylltiadau rhwng diwylliant, ffydd a gwerthoedd unigol
- y caiff eu cymdeithas eu hunain ei chyfoethogi gan amrywiaeth o ddiwylliannau
- effaith gweithgareddau'r gorffennol ar ddiwylliannau a hunaniaeth

Dewisiadau a phenderfyniadau

AGWEDDAU A GWERTHOEDD

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- gyfranogi at waith yr ysgol a'r gymuned ehangach er mwyn newid pethau
- gweld effaith niweidiol unrhyw agwedd sy'n groes i hawliau dynol
- deall gwerth dadl gytbwys a doeth

GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i wybod a deall:

- effaith yr hyn sy'n deillio o beidio â datrys gwrthdaro yn gyfeillgar
- beth yw ystyr hawliau dynol sylfaenol ac nad yw'r hawliau hynny gan bawb
- egwyddorion democratiaeth
- sut y gall gwrthdaro godi o safbwyntiau gwahanol am faterion byd-eang

Gwella dysgu a pherfformiad personol

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- ddadansoddi perfformiad personol o ran dysgu, gan nodi cryfderau a gwendidau
- cymhwyso dysgu i sefyllfaoedd tebyg y tu allan i'r ysgol
- cynllun gweithredu a gosod targedau
- meithrin sgiliau ymarferol i'w defnyddio y tu allan i'r ysgol

Rhif

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- ddewis a dethol data ar faterion yn ymwneud ag Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang o amrywiaeth o ffynonellau
- dangos sut y gall rhai dehongliadau o ddata rhifol fod yn gamarweiniol
- ymchwilio i amrywiaeth o ffyrdd o gyflwyno data o ffynonellau megis ôl troed ecolegol

TGCh

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- rannu gwahanol fathau o wybodaeth ag eraill
- dod o hyd i wybodaeth berthnasol i ddatblygu syniadau a'i defnyddio
- sicrhau cywirdeb, hygrededd a gogwydd gwybodaeth
- defnyddio dulliau ar-lein gan gynnwys offer mesur ôl troed ecolegol

Iechyd

AGWEDDAU A GWERTHOEDD

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- ddeall y pryderon dros iechyd pobl mewn rhannau eraill o'r byd

GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i wybod a deall:

- y cysylltiadau rhwng ffordd iach o fyw a lles corfforol ac emosiynol
- ffyrdd o wella iechyd ac ansawdd bywyd mewn gwledydd ar draws y byd

Yr amgylchedd naturiol

AGWEDDAU A GWERTHOEDD

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- weithredu i warchod bioamrywiaeth mewn amgylcheddau lleol a byd-eang

GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i wybod a deall:

- sut mae gweithgareddau dynol yn newid yr amgylchedd lleol a'r amgylchedd byd-eang

Defnydd a gwastraff

AGWEDDAU A GWERTHOEDD

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- ddeall pa gamau y dylid eu cymryd i leihau eu hôl troed ecolegol eu hunain a gweithredu i leihau gwastraff
- gwerthfawrogi'r cyfraniad y mae pobl eraill a mannau eraill yn ei wneud at eu ffordd o fyw

GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i wybod a deall:

- cyd-ddibyniaeth rhwng cynhyrchwyr a defnyddwyr a materion sy'n ymwneud â chyfiawnder masnachol
- dylanwadau hysbysebu a phwysau cyfoedion ar ddefnyddwyr
- y gwahaniaeth rhwng "safon byw" ac "ansawdd bywyd"

Newid yn yr hinsawdd

AGWEDDAU A GWERTHOEDD

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- wneud penderfyniadau personol a newidiadau i fynd i'r afael â chynhesu byd-eang
- deall yr effaith y mae gweithredoedd y gorffennol a'u gweithredoedd hwy yn ei chael ar genedlaethau'r dyfodol

GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i wybod a deall:

- yr hyn sy'n achosi pryder ynghylch newid yn yr hinsawdd a goblygiadau newid yn yr hinsawdd
- sut y defnyddir adnoddau ynni adnewyddadwy ac anadnewyddadwy i gynhyrchu trydan
- y cysylltiadau rhwng ffordd o fyw a gollyngiadau CO_2

Cyfnod Allweddol 4

Sgiliau

Cyfathrebu

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- gofnodi pwyntiau allweddol a gyflwynir mewn amrywiaeth o gyfryngau ac ymateb iddynt
- mynegi teimladau personol yn glir ac yn briodol
- cyflwyno gwybodaeth a syniadau sy'n ymwneud ag Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang mewn amrywiaeth o gyfryngau

Meddwl

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- ofyn cwestiynau sy'n annog atebion a chyfres o gwestiynau
- dadansoddi patrymau ac ymchwilio i unrhyw beth sy'n ansicr
- cymryd risg ddoeth gyda syniadau, pwyso a mesur y cadarnhaol a'r negyddol (cydbwyso risg â rhagofal)
- nodi ac asesu tuedd a dibynadwyedd
- rhoi ystyriaeth feirniadol i faterion sy'n effeithio ar y dyfodol

Cydweithio ag eraill

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- weithio'n annibynnol a chydweithio i gyfrannu i ganlyniad cyffredin
- bod yn gadarn a chydnabod barn eraill yr un pryd
- addasu i sefyllfaoedd cyfnewidiol
- gwerthuso gwybodaeth a chyngor gan eraill
- ystyried y broses o gyfranogi

Ystod

Cyfoeth a Thlodi

AGWEDDAU A GWERTHOEDD

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- fod â diddordeb yn y rhyngberthnasau cymhleth sy'n cyfrannu at gyfoeth a thlodi mewn cymdeithas a rhwng cymdeithasau
- cydnabod hawliau cenedlaethau'r dyfodol i ddisgwyl bod eu hanghenion sylfaenol yn cael eu diwallu

GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i wybod a deall:

- beth sy'n achosi anghydraddoldeb mewn cymdeithas a rhwng cymdeithasau
- y tensiynau rhwng twf economaidd, datblygu cynaliadwy ac anghenion dynol sylfaenol

Hunaniaeth a diwylliant

AGWEDDAU A GWERTHOEDD

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- werthfawrogi amrywiaeth ddiwylliannol a chyfle cyfartal

GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i wybod a deall:

- pwysigrwydd dylanwadau diwylliannol amrywiol arnynt hwy eu hunain ac ar eu cymuned
- pwysigrwydd iaith, cred a gwerthoedd mewn hunaniaeth ddiwylliannol

Dewisiadau a phenderfyniadau

AGWEDDAU A GWERTHOEDD

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- ymddiddori yn y ffordd y mae materion byd-eang a materion cyfoes yn effeithio arnynt hwy
- parchu barn wahanol a gyflwynir yn rhesymol
- gwerthfawrogi'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â hawliau pobl

GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i wybod a deall:

- y cysylltiadau rhwng penderfyniadau gwleidyddol a'u bywydau eu hunain a sut i ddylanwadu ar benderfyniadau gwleidyddol
- sut mae'r cyfryngau yn dylanwadu ar unigolion a barn gyhoeddus

Iechyd

AGWEDDAU A GWERTHOEDD

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- fod yn gyfrifol am eu hiechyd corfforol a meddyliol eu hunain
- gwerthfawrogi'r rôl y mae amgylchedd iach yn ei chwarae mewn ffordd iach o fyw

Gwella dysgu a pherfformiad personol

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- ystyried eu perfformiad eu hunain a dadansoddi eu datblygiad a'u dysgu eu hunain
- meithrin sgiliau ymarferol i'w defnyddio mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd yn y byd ehangach
- sylweddoli beth yw straen a'i reoli

Rhif

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- ddehongli data rhifol o amrywiaeth o ffynonellau ysgrifenedig a graffigol a'i adolygu'n feirniadol
- nodi cyfrifiadau addas i gael y canlyniadau angenrheidiol ar gyfer tasg megis ôl-troed carbon
- defnyddio syniadau sylfaenol cydberthyniad i ganfod cyd-ddibyniaeth dau newidyn

TGCh

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- lunio a chyflwyno gwybodaeth a syniadau i gynnal barn gyda chynulleidfa a nodwyd
- dod o hyd i wahanol fathau o wybodaeth o wahanol rannau o'r byd
- sicrhau cywirdeb a hygrededd gwybodaeth

GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i wybod a deall:

- y cysylltiadau rhwng yr amgylchedd ac iechyd gan gynnwys effaith llygredd ar iechyd unigolion a chymunedau
- sut i werthuso amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth iechyd, cymorth a chyngor
- effaith clefydau pandemig byd-eang

Yr amgylchedd naturiol

AGWEDDAU A GWERTHOEDD

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- ddangos ymwybyddiaeth o bopeth byw, eu hanghenion a'r rhyngberthynas rhyngddynt
- cefnogi gweithredoedd sy'n hyrwyddo bioamrywiaeth
- gwerthfawrogi mannau gwyllt

GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i wybod a deall:

- cynhwysedd cludo unrhyw amgylchedd â'r ddaear gyfan sy'n gyfyngedig gan systemau naturiol
- yr amrywiaeth o ffactorau sy'n gysylltiedig â lleihau bioamrywiaeth byd-eang ac egwyddorion cynnal a chreu bioamrywiaeth

Defnydd a gwastraff

AGWEDDAU A GWERTHOEDD

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- wrthod ildio i bwysau allanol i brynu nwyddau a chwestiynu eu cymhelliad wrth brynu nwyddau

GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i wybod a deall:

- cyd-ddibyniaeth systemau economaidd byd-eang a chynhwysedd cludo systemau naturiol
- sut i leihau'r effaith amgylcheddol drwy'r cysyniad o ôl troed ecolegol
- ystyr dadansoddi cylch bywyd cynnyrch a sut y gellir ei ddefnyddio

Newid yn yr hinsawdd

AGWEDDAU A GWERTHOEDD

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- gymryd cyfrifoldeb personol dros newid eu ffordd o fyw fel ymateb i newid yn yr hinsawdd

GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i wybod a deall:

- sut i gynnal adolygiad beirniadol o ragolygon am y newid yn yr hinsawdd
- y cysylltiadau rhwng trafnidiaeth a newid yn yr hinsawdd

Sgiliau

Cyfathrebu

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- werthuso dadleuon llafar ac ysgrifenedig yn feirniadol
- cyfleu barn a dadleuon cymhleth am ystod o faterion sy'n ymwneud ag Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang

Meddwl

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- werthuso gwybodaeth a syniadau croes i'w gilydd yn feirniadol er mwyn gallu dehongli tueddiadau, dibynadwyedd a dilysrwydd
- adeiladu ar ganlyniadau annisgwyl yn ogystal â llwyddiannau i ail-werthuso
- ystyried eu dysgu eu hunain a'i gysylltu â sefyllfaoedd anghyfarwydd, haniaethol a'r dyfodol

Cydweithio ag eraill

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- negodi'n effeithiol â chyfoedion ac oedolion
- hyrwyddo syniad drwy safiad neu safbwynt
- addasu'n rhwydd i sefyllfaoedd cyfnewidiol a chychwyn prosesau o newid
- ystyried y rolau a gaiff eu chwarae mewn grŵp gan gynnwys arweinyddiaeth

Ystod

Cyfoeth a Thlodi

AGWEDDAU A GWERTHOEDD

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- westiynu sut y gallai eu gweithredoedd eu hunain gynyddu neu leihau tlodi
- deall pam mae angen cydraddoldeb a chyfiawnder mewn cymuned gynaliadwy

GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i wybod a deall:

- heriau ac effeithiau globaleiddio ar gymunedau mewn gwahanol rannau o'r byd
- cysyniadau cyfalaf cymdeithasol a naturiol

Hunaniaeth a diwylliant

AGWEDDAU A GWERTHOEDD

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- fod yn fodlon herio anghyfiawnder mewn ffyrdd priodol
- meithrin cyfres o werthoedd personol a gaiff eu cymhwyso ganddynt yn ymarferol ac a gaiff eu hailasesu ganddynt yn achlysurol

GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i wybod a deall:

- sut mae gwahaniaethau diwylliannol yn dylanwadu ar ein barn ar natur, gwyddoniaeth a chymdeithas
- sut mae'n bosibl trafod a datrys problemau moesegol sy'n wynebu cymdeithas ac unigolion

Dewisiadau a phenderfyniadau

AGWEDDAU A GWERTHOEDD

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- ddangos ymgysylltiad gweithredol yn y gymuned
- ymrwymo i gymryd rhan mewn etholiadau democrataidd a phrosesau ymgynghori

GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i wybod a deall:

- natur gydberthynol systemau gwleidyddol-gymdeithasol a systemau economaidd mewn penderfyniadau sy'n ymwneud â'r amgylchedd
- bod camau gweithredu cymunedol a phartneriaethau yn allweddol i sicrhau newid cynaliadwy
- bod angen cydweithio rhyngwladol
- y rhan mae asiantaethau anllywodraethol yn ei chwarae

Iechyd

AGWEDDAU A GWERTHOEDD

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- fod yn ymwybodol o'r pwysau cymhleth sy'n rhwystro pobl rhag dilyn ffordd iach o fwy
- deall bod gallu cenedlaethau'r dyfodol i fwynhau ffordd iach o fwy yn dibynnu'n rhannol ar weithredoedd y presennol

Gwella dysgu a pherfformiad personol

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- werthuso gwaith cynllunio personol a pherfformiad dysgu yn feirniadol a nodi strategaethau dysgu llwyddiannus
- ymchwilio, paratoi ac ymarfer cyflwyniadau a dadleuon
- gwerthuso cyngor a chymryd cyfrifoldeb personol dros benderfyniadau

Rhif

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- ddewis sut i gael gwybodaeth berthnasol o ffynonellau gwahanol
- dehongli setiau data rhifol ar faterion Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang a'u cyflwyno mewn ffyrdd gwahanol er mwyn cefnogi dadleuon a safbwyntiau
- dethol a defnyddio dulliau i nodi tueddiadau

TGCh

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- lunio a chyflwyno gwybodaeth gan ddefnyddio dulliau a thechnegau gwahanol ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd
- ymchwilio i wybodaeth o ffynonellau mewn gwahanol rannau o'r byd ar gyfer prosiect neu bwrpas penodol a'i dilysu
- datblygu a mireinio gwybodaeth newydd er mwyn seilio barn a chasgliadau arni

GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i wybod a deall:

- yr heriau sydd ynghlwm wrth ddarparu gofal iechyd yn lleol ac yn fyd-eang
- manteision emosiynol a chorfforol hirdymor ffordd iach o fyw

Yr amgylchedd naturiol

AGWEDDAU A GWERTHOEDD

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- gefnogi'r broses o warchod cynefinoedd naturiol
- gwerthfawrogi byd natur fel ffynhonnell ysbrydoliaeth a chreadigrwydd

GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i wybod a deall:

- rôl yr egwyddor ragofalus wrth wneud penderfyniadau am weithgareddau dynol sy'n effeithio ar yr amgylchedd

Defnydd a gwastraff

AGWEDDAU A GWERTHOEDD

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- ddangos diddordeb mewn defnydd personol a defnydd sefydliadol a chael eu hysgogi i weithredu er mwyn ei leihau
- deall gwerth cynllunio cynaliadwy

GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i wybod a deall:

- pwysigrwydd dylunio wrth leihau defnydd a gwastraff
- egwyddorion a phrosesau gwneud busnesau a sefydliadau yn fwy cynaliadwy
- sut i fod yn ddefnyddiwr moesegol

Newid yn yr hinsawdd

AGWEDDAU A GWERTHOEDD

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- gefnogi'r angen i gydweithio'n lleol ac yn fyd-eang, yn y gwaith ac yn y cartref, i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd

GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i wybod a deall:

- y camau y gellir eu cymryd yn yr amgylchedd gwaith i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd
- sut i fesur ôl-troed carbon
- yr ymateb technolegol a'r ymatebion gan bobl i newid yn yr hinsawdd